WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1540A2019-20

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Samantha Clements a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio darparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2018-19 4

Mae’r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad 23

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 24

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19 28

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2018-19

1 I benderfynu ar ystod a natur y gwaith y byddem yn ei wneud yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ystyried faint yr ydym yn ei wybod eisoes o'r holl waith archwilio ac arolygu blaenorol ac o ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys dulliau adolygu a gwerthuso Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ei hun. Ar gyfer 2018-19, gwnaed gwaith asesu gwelliant, prosiect asesu risg a sicrwydd, a gwaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob cyngor. Mewn rhai cynghorau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2018-19.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Disgrifiad o’r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny’n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2019 | **Asesiad Risg a Sicrwydd**<br>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i’r Cyngor:<br>• rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;<br>• rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus; a<br>• gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i’w cyrraedd. | **Yn deillio o’r prosiect hwn, nodwyd gennym y pynciau canlynol i’w cynnwys yn ein rhaglen archwilio yn y Cyngor ar gyfer 2019-20:**<br>• Cynaliadwyedd Ariannol – prosiect sy’n gyffredin i’r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil heriau presennol a’r rhai y disgwylir yn y dyfodol;<br>• Pontio i Bartneriaeth Iechyd newydd – prosiect i asesu cynnydd y Cyngor wrth bontio i Bartneriaeth Iechyd newydd;<br>• Strategaeth Gweithlu - a phrosiect i adolygu dull y Cyngor o gynllunio’r gweithlu; ac<br>• Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. | Amherthnasol |
| Hydref 2019 | **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** | Gallwn weld rhai agweddau cadarnhaol o ran sut y mae’r Cyngor wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddull o gyflawni’r rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl, ond | Ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad o archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ond fe wnaethom amlygu |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | Archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r Rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl (PRIF). Mae'r cam hwn wedi'i gynnwys o dan flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor i 'Gefnogi economi lwyddiannus' a 'Defnyddio adnoddau yn fwy doeth'.<br><br>Mae copi o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gael yma. | mae angen gwneud mwy i sefydlu'r pum ffordd o weithio.<br>• mae'r Cyngor wedi ystyried data hirdymor a gobeithion ar gyfer y dref i gael gafael ar gyllid ond byddai'n elwa ar ddatblygu gweledigaeth hirdymor a chyfannol ar gyfer y dref;<br>• mae'r Cyngor wedi llunio'r cam i atal dirywiad pellach yn y dref fel atyniad twristiaeth. Fodd bynnag, ceir dealltwriaeth brin o'r hyn sydd wrth wraidd y dirywiad hwn;<br>• mae'r Cyngor wedi llunio'r cam i integreiddio cynlluniau â phartneriaid i gael gafael ar gyllid yr UE, ond byddai gweledigaeth gliriach ar gyfer y dref yn hwyluso dull mwy integredig â phartneriaid;<br>• mae'r Cyngor wedi ystyried sut i gydweithredu â phartneriaid i gyflawni prosiectau PRIF. Fodd bynnag, gallai ei ddull o gydweithredu fod yn fwy strategol; ac<br>• ychydig iawn o ymgysylltiad a chyfraniad ffurfiol sydd yna i sicrhau y cynrychiolir amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid. | meysydd i'w datblygu y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu arnynt. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2018 | **Llythyr archwilio blynyddol 2017-18**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a<br>• hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon neu systemau ariannol allweddol. | Dim |
| **Archwiliad perfformiad lleol ar sail risg** | | | |
| Hydref 2018 | **Safbwynt y Defnyddiwr am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**<br>Adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiad y defnyddiwr gwasanaeth o'r broses addasu tai/cyfleusterau i bobl anabl gan ystyried yr asesiad blaenorol cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Mae copi o'r adroddiad ar gael yma. | **Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ond nid yw'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian:**<br>• mae'r Cyngor wedi pennu nodau clir ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai, gan gydnabod y gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau pobl, ond cyfyngedig yw'r camau gweithredu a nodwyd ganddo i wella'r gwasanaeth;<br>• mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ac yn teimlo bod | C1 Dylai'r Cyngor ystyried yn fwy cyffredinol sut y gall ei wasanaeth addasiadau tai gyfrannu at gyflawni ei nod strategol sef, 'Sicrhau bod Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn lle y mae pobl yn dymuno byw ynddo, gyda dewis o dai fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n briodol i anghenion pob aelwyd' a'r camau gweithredu tymor canolig a thymor hwy sydd eu hangen i wneud hyn. Wrthwneud hynny, dylai ystyried sut y gall gymhwyso'r pum ffordd o weithio o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | yr addasiadau wedi'u helpu gyda'u hanghenion;<br>• roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod y broses gwneud cais yn hawdd, ond mae'r Cyngor yn cael ymholiadau rheolaidd nad yw yn y sefyllfa orau i'w hateb am fod partïon allanol eraill yn dod yn rhan o'r broses wrth iddi fynd rhagddi;<br>• Gallai'r Cyngor wneud mwy i helpu defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu defnyddio ac atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer eu goruchwylio, gan sicrhau yn benodol fod adeiladwyr yn ddiogel i weithio yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed;<br>• roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar yr amser a gymerodd y Cyngor i gymeradwyo eu haddasiadau tai, ond mae'r amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i ddarparu addasiadau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf<br>• mae lle i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn ei helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth. | mwyn ei helpu i wneud hyn a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br>C2 Dylai'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn helpu'r Cyngor i wella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella cynllun yr arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth a'i ymestyn i gynnwys pob defnyddiwr gwasanaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o'r arolwg a'r canlyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.<br>C3 Dylai'r Cyngor helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall y broses sy'n cynnwys nifer o sefydliadau ac sy'n aml yn gymhleth drwy roi trosolwg clir a syml o'r broses grant o'r dechrau i'r diwedd.<br>C4 Dylai'r Cyngor roi'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ar addasiadau tai yn 2018, ar waith yn llawn, yn enwedig Argymhelliad 6 y dylid cyflwyno systemau ffurfiol ar gyfer achredu contractwyr i ymgymryd ag addasiadau gan |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | gynnwys datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractwyr.<br>• Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i fonitro a rheoli perfformiad trydydd partïon sy'n rhan o broses grant cyfleusterau i'r anabl. Dylid rhannu'r wybodaeth hon am berfformiad â defnyddwyr gwasanaeth er mwyn llywio eu penderfyniad ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu cyflogi i gyflawni'r addasiadau i'w tai.<br>• Bydd achredu contractwyr yn ffurfiol a monitro boddhad defnyddwyr yn barhaus yn bodloni'r Cyngor bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed pan fydd adeiladwyr yn mynd i mewn i'w cartrefi.<br>C5 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo reolaethau priodol ar waith i oruchwylio'r broses addasiadau yn effeithiol, am mai'r |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | Cyngor sy'n gyfrifol yn y pendraw am ddarparu'r addasiad. |
| Medi 2019 | **Iechyd yr Amgylchedd**<br>Adolygu'r trefniadau sydd ar waith gan y cyngor i gyflawni gwasanaethau iechyd yr amgylchedd trwy barhau â'r astudiaeth a gynhaliwyd eisoes gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhan o'r astudiaethau ar thema 'cyflawni â llai'.<br><br>Mae ein hadroddiad ar gael ar ein gwefan yma | Mae'r model Cydwasanaethau Rheoleiddio (SRS) yn galluogi'r Cyngor i gynnal ei ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau a chyfrifoldebau a osodir arno gan newidiadau parhaus mewn deddfwriaeth. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau trosolwg a chraffu ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gweithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a darparwyr eraill i archwilio'r cyfleoedd i wella yn y dyfodol. | C1 Canfuom beth tystiolaeth bod gwaith wedi cael ei wneud i ddadansoddi'r costau, y manteision a'r effaith er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ynglŷn ag arbedion a newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, er bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith ailstrwythuro staff dros y cyfnod rhwng 2018 a 2021, cydnabuwyd hefyd ymhlith swyddogion ac aelodau y byddai effaith wirioneddol hyn yn anhysbys i raddau helaeth nes bod y £498,000 o arbedion yn dechrau cael effaith.<br>Dylai'r Cyngor gynnal dadansoddiad mwy trylwyr o gostau, manteision ac effeithiau unrhyw newidiadau i wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.<br>C2 Dylai'r Cyngor ymchwilio i bosibiliadau pellach ar gyfer masnacheiddio a chreu incwm lle mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn i ddarparu gallu ariannol ychwanegol os yw'r cyllid yn lleihau yn y dyfodol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | C3 Wrth ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol yn cael ei ddogfennu'n glir a'i ddeall gan benderfynwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau a phwerau statudol yn cael eu pwyso a'u blaenoriaethu'n briodol ochr yn ochr â gwasanaethau dewisol.<br>C4 Dylai'r Cyngor gyflwyno mwy o her i lefel ac ansawdd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd gan drydydd partïon, gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio dan y Cytundeb Gweithio ar y Cyd.<br>C5 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli "cleient" / contractau ar gyfer ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd trwy:<br>• fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli perfformiad contractwyr (gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio) i alluogi'r Cyngor i ddwyn ei bartneriaid i gyfrif am eu perfformiad; |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | • adolygu'r contract rheoli plâu a roddwyd i gwmni allanol, Mitie, gan gynnwys data hanesyddol ar y nifer o weithiau y cafodd ei alw allan, i geisio canfod a yw'r strwythur cyfredol lle telir ffioedd misol unffurf yn rhoi gwerth am arian i'r Cyngor. Gellir defnyddio hyn wedyn i oleuo'r broses o ail-negodi'r contract wrth ei adnewyddu yn 2020.<br>C6 Dylai'r Cyngor weithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio i gynnal adolygiad o drefniadau parhad busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â'r Cydwasanaethau Rheoleiddio i liniaru'r risg o orddibyniaeth ar unigolion allweddol, megis Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio a rheolwyr gweithredol.<br>C7 Dylai'r Cyngor gryfhau trosolwg gan aelodau etholedig ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, er enghraifft trwy Graffu'n fwy rheolaidd ar wasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | C8 Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi sy'n fwy strwythuredig ac wedi'u targedu'n fwy ar gyfer aelodau perthnasol, a allai fod o fudd os ceir newidiadau i bersonél ac mewn meysydd lle ceir newidiadau mewn deddfwriaeth, e.e. llygredd aer/diogelwch bwyd/clefydau heintus.<br>C9 Dylai'r Cyngor gysylltu unrhyw benderfyniadau ynglŷn â newidiadau i lefelau gwasanaethau yn y dyfodol yn fwy eglur ag asesiad o'r effaith ar randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a thrigolion. Dylid penderfynu a oes angen ymgynghori, a pha ddull ymgynghori sydd fwyaf priodol, ar sail achosion unigol. Fodd bynnag, lle mae newidiadau'n debygol o effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, busnesau a thrigolion lleol, dylent fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau hyn a dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch.<br>C10 Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar fentrau megis ap Sŵn y |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | Cydwasanaethau Rheoleiddio, i sicrhau bod effaith gostyngiadau yn y cyllid yn y dyfodol yn gallu cael ei lliniaru trwy arloesi a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau ac fel bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gallu cael budd o dechnolegau newydd. |
| Medi 2019 | **Adolygiad dilynol o'r trefniadau i Gynllunio Arbedion**<br>Roedd ein hadroddiad am gynllunio arbedion a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017 yn cynnwys cynnig gwella a oedd yn galw arno i gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• sicrhau bod cynigion arbedion yn cael eu datblygu'n llwyr a'u bod yn cynnwys amserlenni realistig i'w cyflawni cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol;<br>• pennu cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>Yn ein hadolygiad yn haf 2019, fe wnaethom asesu cynnydd y Cyngor | Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni.<br>• Mae'r Cyngor wedi pennu rhai cynigion arbedion dangosol ar gyfer cyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i lunio cynigion ar gyfer 2020-21 a thu hwnt;<br>• Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio cynigion i wneud arbedion cyllidebol, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i sicrhau bod yr amserlenni i'w cyflawni mor gywir â phosibl; ac<br>• Mae'r graddau y cafodd cynlluniau arbedion eu cyflawni wedi amrywio mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae'r Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o gynlluniau arbedion 2018-19 ac mae angen nawr iddo | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella hyn ac ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni ei gynigion arbedion.<br>Mae ein hadroddiad ar gael ar ein gwefan. | ddefnyddio ei drefniadau cryfach i sicrhau bod y sefyllfa well yn parhau. | |
| Hydref 2019 | **Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant**<br>Adolygu effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol gan barhau â'r astudiaeth a gynhaliwyd eisoes gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y maes hwn. | Mae'r Cyngor wedi cyflawni, neu gyflawni'n rhannol, ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion ar gyfer gwella, ond rydym wedi nodi rhagor o gynigion ar gyfer gwella i atgyfnerthu agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. | C1 Dylai'r Cyngor gryfhau ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol ar gyfer diogelu trwy:<br>• gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau'r aelod arweiniol a'r swyddog arweiniol ar gyfer diogelu ar dudalennau mewnrwyd y Cyngor; a<br>• sicrhau bod diogelu wedi'i gynnwys yng nghyfrifoldebau portffolio'r aelod arweiniol ar wefan y Cyngor.<br>C2 Dylai'r Cyngor atgyfnerthu'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn y ffyrdd canlynol:<br>• egluro rôl a chyfrifoldebau'r aelod arweiniol ar gyfer diogelu;<br>• nodi rôl y pwyllgor craffu yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor; |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | • egluro rôl y bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol; a<br>• dileu hen gyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol mwyach at hyrwyddwyr diogelu.<br>C3 Dylai'r Cyngor gryfhau ei Ganllawiau i Reolwyr Recriwtio a Dethol mewn cysylltiad â diogelu a recriwtio diogel. Er enghraifft:<br>• dylai'r adran disgrifiadau swydd gyfeirio at ddiogelu ar gyfer swyddi perthnasol;<br>• nodi y bydd hysbysebion swydd ar gyfer swyddi y mae angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnynt yn cynnwys datganiad penodol ynghylch diogelu; a<br>• dylai'r Canllawiau groesgyfeirio'r Polisi DBS a'r Polisi Diogelu Corfforaethol.<br>C4 Dylai'r Cyngor ddiweddaru ei Bolisi DBS i sicrhau ei fod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol.<br>C5 Dylai'r Cyngor sicrhau defnydd cyson o ddarpariaethau diogelu mewn tendrau a chontractau ar |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | draws pob Cyfarwyddiaeth a sicrhau y caiff y darpariaethau cytundebol hyn eu monitro'n briodol.<br>C6 Dylai'r Cyngor wella'i ddull o ran hyfforddiant diogelu yn y ffyrdd canlynol:<br>• egluro pryd mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol gael ei adnewyddu;<br>• egluro pa mor aml y dylid cynnig hyfforddiant diogelu i aelodau; a<br>• gwella'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer cwblhau ei hyfforddiant diogelu gorfodol.<br>C7 Dylai'r Cyngor ddatblygu system ganolog ar gyfer cofnodi a monitro gwybodaeth gwirfoddolwyr, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddi a gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr, ac ystyried llunio canllawiau canolog ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr.<br>C8 Dylai'r Cyngor ystyried llunio rhagor o fesurau perfformiad (er enghraifft o ran cydymffurfio â gwiriadau DBS a hyfforddiant diogelu gorfodol) i wella'r wybodaeth am berfformiad a |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | roddir i'r tîm craffu ac i gynorthwyo tryloywder.<br>C9 Dylai'r Cyngor ystyried rhinweddau grŵp diogelu corfforaethol gweithredol sy'n goruchwylio risgiau diogelu corfforaethol o bob rhan o'r Cyngor. |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim |
| Tachwedd 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Estyn<br>Mawrth 2019 | **Adroddiad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Mawrth 2019**<br>[Mae copi o'r adroddiad ar gael yma.] | Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae dull yr awdurdod o gydweithio ar draws meysydd gwasanaethau a gydag ysgolion, sy'n cael ei adnabod fel 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr' ('Team Bridgend'), yn | A1 Codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd<br>A2 Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn dosbarthiadau chwech<br>A3 Cynyddu cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion sy'n achosi pryder |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | effeithiol, yn enwedig o ran gwella cymorth i ddysgwyr sy’n agored i niwed. Mae ysgolion yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau am addysg. Mae’r ffordd y mae’r awdurdod lleol yn dyrannu adnoddau i’w wasanaethau addysg a’i ysgolion yn adlewyrchu’r flaenoriaeth uchel a roddir i addysg yn y cynllun corfforaethol.<br>At ei gilydd, mae disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud cynnydd da rhwng yr oedrannau ysgol statudol, sef pump ac un deg chwech oed. Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd dros y tair blynedd ddiwethaf yn cymharu’n dda â safonau mewn awdurdodau lleol tebyg. Fodd bynnag, mae safonau mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yn cymharu’n llai ffafriol â’r cyfartaledd cenedlaethol. Nid yw deilliannau ar gyfer disgyblion oedran cynradd mor gryf ag ydynt ar gyfer y rheiny mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn llythrennedd. Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw. Mae’r awdurdod lleol yn darparu prosesau a gweithgareddau strwythuredig ar eu cyfer, ac maent yn ymgysylltu’n dda. | A4 Cryfhau rôl Fforwm Strategol Addysg Cymru i sicrhau cynnydd amserol o ran cyflawni’r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | Mae swyddogion gwella ysgolion yn yr awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â swyddogion ac ymgynghorwyr o'r consortiwm rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i wella. Mae'r cymorth hwn yn effeithiol ar y cyfan, er bod cyflymdra'r cynnydd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn rhy araf. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo'n gryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, ac mae'n darparu ystod dda o wasanaethau i gynorthwyo ysgolion a disgyblion.<br>Mae proses hunanwerthuso'r awdurdod wedi'i sefydlu'n dda ar draws y gyfarwyddiaeth, ac yn rhoi ystyriaeth dda i gyfraniadau gan ei randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol a disgyblion. Mae hyn yn galluogi rheolwyr i werthuso ansawdd gwasanaethau, gan ystyried ystod eang o safbwyntiau. | |
| Arolygiaeth Prawf EM (gan gynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi | **Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ym Mae'r Gorllewin**<br>Arolygodd Arolygiaeth Prawf EM Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin a'i raddio mewn tri maes eang: dulliau gweithredu'r sefydliad, | Cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin radd 'Annigonol' – y radd isaf. | Gwnaeth Arolygiaeth Prawf EM 14 o argymhellion, a nodir yn ei hadroddiad sydd ar gael ar ei gwefan yma. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn<br><br>Mawrth 2019 | ac ansawdd penderfyniadau'r llys a gwarediadau tu allan i'r llys. | | |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br><br>Mehefin 2019 | **Llythyr adolygu perfformiad blynyddol 2018/19**<br><br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi gwerthusiad AGC o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol (gwasanaethau i oedolion a phlant) yn 2018/19. Mae hefyd yn nodi sut y mae AGC yn bwriadu adolygu perfformiad yn ystod y flwyddyn nesaf. | Copi o lythyr adolygu perfformiad blynyddol AGC | Amherthnasol |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd David
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**Cyfeirnod:** 907A2018-19

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Tachwedd 2018

Annwyl Gynghorydd David

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a

- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiad o gyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'r Cod wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 12 Medi 2018, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiad o gyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y datganiad o gyfrifon. Adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad 'Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol' ar 6 Medi 2018.Yn yr adroddiad hwn fe wnes i gadarnhau bod ansawdd y cyfrifon drafft a'r cofnodion cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio wedi'u paratoi i safon dda yn gyffredinol, gan adlewyrchu gwelliant parhaus y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol

Cyllid cyni sy'n parhau i fod yr her fwyaf sylweddol i'r holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Bydd setliad ariannol dros dro diweddar llywodraeth leol 2019-20 yn ostyngiad o £1.22 miliwn neu 0.6% i setliad y Cyngor. Mae'r gostyngiad canran hwn yn fwy na ffigur Cymru gyfan, sef 0.3%.

Ar gyfer 2017-18, cafwyd tanwariant o £6.5 miliwn yng ngwariant refeniw net y Cyngor (cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi). Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o £77.9 miliwn, sef £2.8 miliwn yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o £77.9 miliwn yn cynnwys £48.1 miliwn yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, cronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf gwerth £21.2 miliwn, balans yng nghronfa'r cyngor o £8.3 miliwn a chronfa wrth gefn o grantiau cyfalaf heb eu defnyddio o £0.3 miliwn.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2018-19, mae'r Cyngor yn darogan yn ei gyfrifon rheoli diweddaraf y bydd yn cyflawni tanwariant gweithredol o £4.5 miliwn (cyn y trosglwyddo darogan i gronfeydd wrth gefn wedi'i chlustnodi). Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o 2018-19 hyd 2021-22[1] yn nodi cynigion ar gyfer gostyngiadau i'r gyllideb o £32.6 miliwn. O fewn y ffigur hwn, mae £6.1 miliwn o'r gostyngiadau yn

[1] Dyddiedig Chwefror 2018

ymwneud â 2018-19, ac mae'r Cyngor wedi nodi cynigion. Ar gyfer y ffigur sy'n weddill o £26.5 miliwn ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2022, mae'r Cyngor wedi nodi gostyngiadau o £7.1 miliwn ond nid yw wedi nodi gostyngiadau ar gyfer yr £19.4 miliwn arall hyd yn hyn.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, er, ym mis Medi 2018, nodais y meysydd i'w gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.[2]

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2017-18 wedi'i gwblhau ar 12 Medi 2018.

## Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon na systemau ariannol allweddol

Mae'r gwaith archwilio hwn yn parhau ac nid oes unrhyw faterion sylweddol hyd yn hyn. Yn gynnar yn 2019, byddaf yn cyflwyno fy adroddiad grantiau ar yr archwiliad o hawliadau a ffurflenni grant 2017-18 y Cyngor. Mae Pwyllgor Archwilio y Cyngor yn ystyried yr adroddiad hwn bob blwyddyn.

## Ffioedd archwiliad ariannol

Disgwylir ar hyn o bryd y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol. Bydd ffi derfynol fy archwiliad o hawliadau a ffurflenni grant 2017-18 y Cyngor yn cael eu nodi yn fy adroddiad ar grantiau.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

[2] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cc: Darren Mepham, Prif Weithredwr
Gill Lewis, Swyddog Adran 151

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Arddangosyn 3: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Hydref 2018 | **Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd** | A1 Mae'r rhagamcanion ar gyfer y tri phrosiect gwastraff gweddilliol yn y Rhaglen yn tybio y bydd cyfanswm y gwastraff gweddilliol yn cynyddu hyd ddiwedd y contractau, ar draws y 14 o gynghorau sy'n cymryd rhan. Os yw'r rhagamcanion hyn yn gywir, byddai angen i rywbeth mawr ddigwydd ar ôl 2040 er mwyn cyrraedd sefyllfa dim gwastraff ar draws yr ardaloedd cyngor hyn erbyn 2050. Os nad yw'r rhagamcanion yn gywir, ceir risg y bydd cynghorau'n talu am gapasiti na fydd ei angen arnynt. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:**<br>• **wrth adolygu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ystyried sut mae ei huchelgais o sicrhau na cheir unrhyw wastraff gweddilliol erbyn 2050 yn gyson â'r rhagamcanion cyfredol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol; a**<br>• **gweithio gyda chynghorau i ystyried effaith newidiadau mewn rhagamcanion ar gost debygol** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **prosiectau gwastraff gweddilliol, ac unrhyw gamau lliniarol y mae angen eu cymryd i reoli'r costau hyn.**<br>A2 Hyd yma, mae cymorth rhaglen Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu a chaffael prosiectau. Gan fod y rhan fwyaf o'r prosiectau bellach yn weithredol, mae'r sylw wedi troi tuag at reoli contractau. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i oruchwylio prosiectau yn ystod y cam gweithredol drwy:**<br>• **adeiladu ar ei model presennol, lle mae'n darparu unigolion profiadol i gynorthwyo i ddatblygu a chaffael prosiectau, a gwneud yn siŵr bod mewnbwn ar gael er mwyn cynorthwyo i reoli contractau os oes angen;**<br>• **nodi ei disgwyliadau gan gynghorau o ran rheoli contractau;**<br>• **sicrhau bod partneriaethau'n ailystyried eu rhagamcanion gwastraff a'r risgiau cysylltiedig bob hyn a hyn, er enghraifft er mwyn adlewyrchu amcanestyniadau cyfredol o'r boblogaeth neu ragolygon economaidd; a**<br>• **chael gwybodaeth reoli sylfaenol gan bartneriaethau ynghylch ffioedd clwyd a daladwy, faint o wastraff a anfonwyd i'r cyfleusterau ac ansawdd gwasanaeth y contractwr.** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Tachwedd 2018 | **Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig** | A1 O ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:**<br>• **adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a**<br>• **chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu.**<br>A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). **Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:**<br>• **asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a**<br>• **sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gydgynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.**<br>A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). **Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:**<br>• **sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a**<br>• **defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.**<br>A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). **Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • **weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;**<br>• **darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;**<br>• **gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;**<br>• **annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;**<br>• **galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a**<br>• **gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2018 | **Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol** | A1 O waith meincnodi, gwelwyd bod yr amrywiaeth yng nghost rhai gwasanaethau rheoli gwastraff yn destun syndod (paragraffau 1.31-1.39). **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i gael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd yr amrywio mewn gwariant ar wasanaethau rheoli gwastraff sydd i bob pwrpas yr un peth, a sicrhau y rhoddir cyfrif am gostau rheoli gwastraff mewn modd cyson.**<br>A2 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod ei Glasbrint Casgliadau, o'i weithredu'n optimaidd, yn cynnig y dull mwyaf cost-effeithiol yn gyffredinol o gasglu adnoddau ailgylchadwy, ond yn bwriadu gwneud gwaith dadansoddi pellach (paragraffau 1.40-1.51). **Wrth ddadansoddi ymhellach er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd y gwahaniaethau yn y costau a adroddwyd gan gynghorau, a'r effaith ar gostau lle mabwysiadwyd y Glasbrint Casgliadau gan y cynghorau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:**<br>• **archwilio sut y gallai'r gost o gasglu deunyddiau ailgylchadwy sych effeithio ar gyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff ar garreg y drws i aelwydydd; a**<br>• **chymharu'r costau gwirioneddol â'r costau a fodelwyd yn flaenorol yn rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Glasbrint** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | | **Casgliadau, yn achos cynghorau sydd bellach yn gweithredu'r Glasbrint Casgliadau.**<br>A3 Yn lle'r targedau ailgylchu cyfredol sy'n seiliedig ar bwysau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried opsiynau amgen a all ddangos yn well sut y mae'n cyrraedd y nod o ran ei hôl troed ecolegol a lleihau allyriadau carbon (paragraffau 2.38-2.45). **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau perfformiad i ddisodli neu ategu'r targed cyfredol i ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio gwastraff. Pwrpas y mesurau hynny fyddai canolbwyntio o'r newydd wrth ailgylchu ar yr adnoddau gwastraff sy'n cael yr effaith fwyaf o ran lleihau carbon ac/neu sydd yn brin. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried fforddiadwyedd casglu data ar gyfer unrhyw ddull arall o fesur.**<br>A4 Wrth ailwampio Tuag at Ddyfodol Diwastraff, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos bod y manteision cynaliadwyedd ehangach a geisir drwy ailgylchu trefol yn cynnig gwerth, ac na ellir defnyddio dulliau eraill rhwyddach a rhatach i'w sicrhau, gan gynnwys ymyraethau rheoli gwastraff eraill, ond heb gyfyngu i hynny o reidrwydd (paragraffau 2.52-2.53). **Yn y strategaeth gwastraff ddiwygiedig, dylai Llywodraeth Cymru ddangos ei bod hi nid yn unig yn bosibl i ailgylchu cyfran fwy o wastraff trefol, ond y bydd gwneud hynny'n sicrhau'r cyfraniad** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **mwyaf posibl ganddi tuag at gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy.** |
| Tachwedd 2018 | **Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig:** Trosglwyddo Asedau Cymunedol | A1 Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. **At hynny, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.**<br>A2 Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. **Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:**<br>• **nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • **gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;**<br>• **nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;**<br>• **sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a**<br>• **cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.** |
| Rhagfyr 2018 | **Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata** | **A1** **Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd creu diwylliant data cryf ac arweinyddiaeth eglur i wneud gwell defnydd o ddata.**Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;<br>• sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd; |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | | • ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth ddyblyg; a<br>• chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau.<br>**A2 Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• darparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.<br>**A3 Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a<br>• buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad.<br>**A4 Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw.** Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a<br>• sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael. |
| Mawrth 2019 | Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff | **A1 Cynyddu'r pwyslais ar atal gwastraff er mwyn adlewyrchu amcanion cyffredinol Tuag at Ddyfodol Diwastraff**<br>Awgryma'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir bod cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>a) ailedrych ar y flaenoriaeth berthnasol y mae'n ei rhoi i ailgylchu ac atal gwastraff fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff;<br>b) gosod y disgwyliadau ar wahanol sefydliadau a sectorau ar gyfer atal gwastraff yn eglur; ac<br>c) ailedrych ar ei thargedau atal gwastraff cyffredinol a'r ffordd y mae wedi mynd ati i'w monitro, gan ystyried y cynnydd hyd yn hyn, enghreifftiau o wledydd eraill ac yng nghyd-destun yr amcanestyniadau cyfredol am wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu hyd at 2050.<br>**A2 Gwella data ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith cychwynnol i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain yr holl wastraff. Os na fydd yr opsiwn dewisol hwn yn llwyddo, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio costau a buddion opsiynau eraill i wella'r data ar wastraff nad yw'n drefol yng Nghymru, gan gynnwys pwerau ychwanegol i ofyn am ddata gwastraff gan fusnesau.<br>**A3 Gwella cyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnyddio ysgogiadau mwy cyfreithiol, ariannol a chyllidol**<br>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol. Gall |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | hefyd ddylanwadu ar newidiadau ar lefel y DU, lle nad yw materion cyllidol wedi eu datganoli. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen darpariaethau i ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ac oes angen defnyddio pwerau ariannol fel amodau grant, mesurau cyllidol a thaliadau a chymelliadau cwsmeriaid i hyrwyddo a blaenoriaethu'r gwaith o atal gwastraff. |
| Mehefin 2019 | **Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru** | A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymell fel a ganlyn:<br>• bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>– yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;<br>– yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac<br>– yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.<br>• bod Llywodraeth Cymru:<br>– yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddaru'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.<br>A2 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>• yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac<br>• yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:<br>– integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;<br>– datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a<br>– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol eraill. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | A3 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>• yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac<br>• yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.<br>A4 Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:<br>• adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;<br>• diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a<br>• gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | A5 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>• yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;<br>• yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;<br>• yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac<br>• yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant. |
| Medi 2019 | **Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion** | **Gwella mynediad i'r drws blaen**<br>A1 Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol:<br>• awdurdodau lleol:<br>– adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | | anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn ‘argyfwng’;<br>– gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a’r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy’n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i’w helpu;<br>– sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a’u cynnig yn rhagweithiol i’r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac<br>– ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.<br>• Bod Llywodraeth Cymru:<br>– gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalwyr o’u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda’r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a<br>– chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi’r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio’r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **Buddsoddi mewn atal a deall effaith**<br>A2 Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymell y canlynol:<br>• awdurdodau lleol:<br>– mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;<br>– cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;<br>– gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a<br>– gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.<br>• bod Llywodraeth Cymru:<br>– wella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.<br>Yn rhan o’n hadroddiad, fe wnaethom hefyd gyhoeddi adnodd data rhyngweithiol, ffilm fer a ffeithlun am straeon gofalwyr. Mae’r rhain ar gael ar ein gwefan **yma.** |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru